

# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

---

Lleoliad:

**Video Conference via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 8 Rhagfyr 2020

Amser: 09.00 – 09.38

## Preifat

---

### Yn bresennol

Categori	Enwau
Aelodau'r Pwyllgor:	Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd) Rebecca Evans AS Darren Millar AS Siân Gwenllian AS Caroline Jones AS
Staff y Pwyllgor:	Aled Elwyn Jones (Clerc)
Eraill yn bresennol	Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau Julian Luke, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd Helen Carey, Llywodraeth Cymru Bethan Garwood, Dirprwy Clerc



## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod yr wythnos diwethaf i'w cyhoeddi

## 3 Trefn Busnes

### 3.1 Busnes yr wythnos hon

#### Dydd Mawrth

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal ar ôl yr eitem olaf o fusnes.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o bara'n hwyrach na 7.10pm.

#### Dydd Mercher

- Cynhelir Amser Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o bara'n hwyrach na 7.20pm.

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau amrywiol i Fusnes yr Wythnos Hon:

- ychwanegu dadl ar y cyfyngiadau Coronafeirws newydd i agenda dydd Mawrth, ochr yn ochr â chynnig i atal Rheolau Sefydlog dros dro, er mwyn caniatáu iddi ddigwydd;
- y datganiad gan Ddirprwy Weinidog yr Economi a Thrafnidiaeth: Mae'r diweddariad ar Dasglu'r Cymoedd a'r ddadl ar Adolygiad Blynyddol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol 2019–20 ill dau wedi'u gostwng mewn amser o 45 i 30 munud; a;
- Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Lluosydd) (Cymru) 2020 wedi'i ohirio.

## *Dadl ar Gyfyngiadau Coronafeirws*

Amlygodd y Llywydd fod cyfanswm o 17 o welliannau wedi'u cyflwyno i ddadl dydd Mawrth, a 5 i ddadl y Ceidwadwyr ddydd Mercher, ac y gallai ddefnyddio ei phwerau dewis, yn ôl yr arfer.

## *Adroddiad safonau*

Er mwyn cynnal busnes yn iawn, cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r ddadl ar yr Adroddiad Safonau fel yr eitem olaf cyn yr amser pleidleisio.

### **3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf**

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y newidiadau a ganlyn:

#### **Dydd Mawrth 15 Rhagfyr 2020**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 12.24 i gynnal dadl ar y canlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (30 munud):
  - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020
  - Rheoliadau Diogelu Iechyd (Coronafeirws, Teithio Rhyngwladol a Chyfyngiadau) (Diwygio) (Rhif 3) (Cymru) 2020
- ~~Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol (15 munud) – wedi'i ohirio tan 12 Ionawr~~

#### **Dydd Mawrth 12 Ionawr 2021**

- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau busnes a ganlyn ar yr amserlen:

**Dydd Mercher 13 Ionawr 2021 –**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)

**Dydd Mercher 20 Ionawr 2021 –**

- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Hawliau plant yng Nghymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ddydd Llun 14 Rhagfyr fel terfyn amser i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

### 4.2 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Meddyginiaethau a Dyfeisiau Meddygol at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer adrodd o 11 Ionawr 2021, a'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil yr Amgylchedd i'r Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad gyda dyddiad cau ar gyfer adrodd o 4 Chwefror 2021.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil y Farchnad Fewnol at bwyllgor.

### **4.3 Cynigion Cydsyniad Offeryn Statudol**

Rhoddodd y Llywydd wybod i Reolwyr Busnes y bydd yn ymateb i gadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar y mater hwn, ac yn anfon copi at y Pwyllgor Busnes.

## **5 Pwyllgorau**

### **5.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid**

Cytunodd Rheolwyr Busnes i gyfarfod ychwanegol o'r Pwyllgor ar 16 Rhagfyr.

## **6 Y Rheolau Sefydlog**

### **6.1 Gweithdrefnau Adalw**

Anogodd y Llywydd Reolwyr Busnes i roi adborth gan eu grwpiau ar y papur hwn a'r papur canlynol wrth iddyn nhw godi, yn hytrach nag aros am y cyfarfod nesaf.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drafod y papur â'u grwpiau a dod yn ôl i'r cyfarfod yr wythnos nesaf i fynegi unrhyw safbwyntiau cychwynnol.

### **6.2 Adolygu'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â grwpiau gwleidyddol**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drafod y papur â'u grwpiau a dod yn ôl i'r cyfarfod yr wythnos nesaf i fynegi unrhyw safbwyntiau cychwynnol.